**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (FFORDD TREFYNWY, Y FENNI, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERDDWYR DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn y Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerddwr rhag mynd ar y darn o'r droetffordd gyferbyn â cherbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd ac o flaen mangre ATS Euromaster sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Mill Street hyd at bwynt 120 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno yn Ffordd Trefynwy, y Fenni, Sir Fynwy.

Y llwybr arall yw drwy'r groesfan a reolir gan signalau dros dro sy'n rhan o'r gwaith a'r droetffordd gyferbyn â cherbytffordd tua'r dwyrain yr A40 Ffordd Trefynwy.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 8 Awst 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 08:00 o'r gloch ar 8 Awst 2022 hyd 15:00 o'r gloch ar 6 Medi 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnodau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (MONMOUTH ROAD, ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF PEDESTRIANS) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all pedestrians from proceeding on the length of the footway adjacent to the westbound carriageway of the trunk road and in front of the premises of ATS Euromaster that extends from a point 50 metres west of the centre-point of its junction with Mill Street to a point 120 metres west of the centre-point of that junction at Monmouth Road, Abergavenny, Monmouthshire.

The alternative route is via the temporary signal-controlled crossing incorporated in the works and the footway adjacent to the eastbound carriageway of the A40 Monmouth Road.

The Order comes into force on 8 August 2022. The temporary prohibition is expected to operate from 08:00 hours on 8 August 2022 until 15:00 hours on 6 September 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the periods specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government